Fel rhan o'n Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu, byddwn hefyd yn gweithio'n agos gydag Aelod Cabinet y Cyngor, aelodau etholedig lleol a Chynghorwyr Tref / Cymuned lleol perthnasol i rannu'r bwriad, diben y datblygiad yn unol ag amcanion strategol ehangach yr Awdurdod Lleol a'i fanteision niferus i'r gymuned, yn amodol ar gymeradwyo cyllid grant IRCF Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu yn ystod pob cam allweddol o'r datblygiad arfaethedig i gasglu cefnogaeth a darparu cyfleoedd am adborth i'n helpu i lunio'r prosiect yn y dyfodol i sicrhau ei lwyddiant.

Cefndir

Ar hyn o bryd mae tan ddarpariaeth o leoedd mewn cartrefi nyrsio yng Ngwynedd, sy'n waeth mewn rhai rhannau o Wynedd, sef Llŷn ac Eifionydd. Fel comisiynwyr, mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd felly yn awyddus i archwilio sut y gallent wella'r sefyllfa bresennol trwy ddod yn ddarparwyr cartref gofal gyda nyrsio.

Mae Cartref Gofal gyda Nyrsio Penrhos yn fath newydd o bartneriaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd cydweithredu traws-sector i ddarparu'r canlyniadau gorau i drigolion a chymunedau lleol. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni fel Partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd (CG) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Mae safle Penrhos yn cynnig nifer o gyfleoedd ac mae traddodiad o ddarparu gofal ar y safle ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Y prif gyfyngiad mewn parhad gwasanaeth oedd bod ansawdd yr adeiladau yn anaddas ac yn anghydnaws â gofynion modern. Mewn sawl agwedd, roedd y weledigaeth wreiddiol o ddarparu ystod o wasanaethau ar y llwybr gofal, mewn un lleoliad yn hynod flaengar ac yn rhagflaenydd i'r cynlluniau tai gofal ychwanegol sydd wedi datblygu.

Ar ôl treulio amser yn chwilio am ddatrysiad a gwerthuso posibiliadau amrywiol, penderfynodd Bwrdd Cymdeithas Tai Gwlad Pwyl mewn cyfarfod ar 2 Mai 2020 na allent barhau i gynnal a chadw'r gwasanaethau ac i drosglwyddo'r safle i Gymdeithas Tai ClwydAlyn. Ar 12 Medi 2020, trosglwyddwyd holl rwymedigaethau Cymdeithas Tai Gwlad Pwyl i Gymdeithas Tai ClwydAlyn. Roedd hyn yn cynnwys 93 o fflatiau gwarchod a Chartref Gofal / Nyrsio (42 gwely).

Gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, llwyddodd Llywodraeth Cymru i ddiogelu dyfodol y safle yn ei gyfanrwydd. Er bod ymdrech i ddiogelu dyfodol hirdymor y cartref gofal, daeth yn amlwg na fyddai'n bosibl cynnal cartref yn y tymor hir, ond llwyddwyd i sicrhau cau'r cartref yn drefnus a chael effaith gyfyngedig ar unigolion a'u teuluoedd. Ar 7 Rhagfyr 2020, caewyd y cartref ar ôl dod o hyd i leoliadau addas o ddewis ar gyfer pob preswlydd.

Fel rhan o'r trosglwyddiad mae Cymdeithas Tai ClwydAlyn wedi cadarnhau ei bod yn barod i gynnig darn o dir 2.2 erw ar y safle i Gyngor Gwynedd yn rhad ac am ddim i ystyried posibiliadau ar gyfer darparu cartref gofal.

Yn amodol ar geisiadau cyllid llwyddiannus, bydd y prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol yn allanol gan Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Llywodraeth Cymru (IRCF). Mae cyflwyno'r cais cynllunio wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2026 gyda disgwyl Cymeradwyaeth Cynllunio erbyn mis Mehefin 2026. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yng ngwanwyn 2027, gyda'r nod o gwblhau a throsglwyddo'r cyfleuster erbyn mis Medi 2029. Rhagwelir y bydd yr adeilad yn gwbl weithredol erbyn Hydref 2029.

Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Nod y cynllun hwn yw helpu i roi gwybod i drigolion lleol am y datblygiad, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o amcanion, amserlenni a manteision cymunedol y prosiect. Trwy ddarparu gwybodaeth glir ac amserol, bydd hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon posibl ac adeiladu cefnogaeth i'r datblygiad.

Mae ymgysylltu â thrigolion a'r gymuned ehangach ar gyfnodau allweddol yn caniatáu eu mewnbwn gwerthfawr, gan helpu i lunio'r prosiect mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau trigolion lleol. Gall yr adborth hwn hefyd helpu i nodi problemau posibl yn gynnar, gan ganiatáu addasiadau sy'n gwella canlyniad cyffredinol y prosiect.

Mae'n hanfodol diweddarau a chynnwys Aelod Cabinet CG, aelodau etholedig lleol a'r Cynghorwyr Cymuned / Tref perthnasol. Trwy ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn, gallwn sicrhau eu bod yn deall manteision y prosiect, a all helpu i sicrhau eu cefnogaeth a hwyluso cynnydd llyfnach trwy gamau cynllunio a datblygu.

Mae cael Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i weithredu'n dda yn hyrwyddo tryloywder ac yn helpu i feithrin ymddiriedaeth, gan ddangos i'r gymuned ein bod wedi ymrwymo i broses agored a chydweithredol.

Mae'r cynllun yn darparu llwyfan i bwysleisio'r effeithiau cadarnhaol y bydd y datblygiad yn ei gael yn y gymuned leol, megis gwell cyfleusterau gofal, creu swyddi posibl, a gwell mwynderau cymunedol, a all gynyddu brwdfrydedd a chefnogaeth leol i'r prosiect.

Ar y cyfan, bydd y cynllun hwn yn helpu i alinio nodau'r prosiect â disgwyliadau'r gymuned a gwella amgylchedd cadarnhaol ar gyfer ei gwblhau'n llwyddiannus.

Amcanion busnes

Sut mae'r ymgyrch hon yn cefnogi Amcanion Corfforaethol allweddol yr awdurdod?

- Mae datblygu Pentref Pwylaidd Penrhos, ac yn benodol y Cartref Gofal Preswyl a Nyrsio, yn flaenoriaeth allweddol i CG er mwyn caniatáu i'r Cyngor ail-gydbwyso cyfran y lleoliadau cartrefi gofal oddi wrth y sector sy'n gwneud elw.
- Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a diwedd mis Mawrth 2028. Mae'r Cynllun yn esbonio pam ein bod yn canolbwyntio ein hegri a'n hadnoddau mewn rhai meysydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith blaenoriaeth.

- Gwynedd Yfory – Rhoi'r cychwyn gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc.
- Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi pobl Gwynedd i ennill cyflog teg.
- Gwynedd Glyd - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau.
- **Gwynedd Ofalgar - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn eu cymunedau.**
- Gwynedd Gymraeg - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned.
- Gwynedd Werdd - Gwarchod prydfwerthwch naturiol y sir ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd.
- Gwynedd Effeithlon - Rhoi pobl Gwynedd yn gyntaf a'u trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac yn effeithlon.

Y Broblem / Angen

Mae poblogaeth Gwynedd yn heneiddio, gyda'r boblogaeth dros 65 oed wedi cynyddu 28% yng Ngwynedd, a'r boblogaeth dros 85 oed wedi cynyddu 156% ers cyfrifiad 1981.

Mae'n her enfawr sicrhau bod darpariaeth a chefnogaeth ledled y sir i bobl barhau i fyw'n annibynnol gartref wrth i'r boblogaeth heneiddio, ac rydym yn ymwybodol o'r problemau sylweddol y mae darparwyr gofal yn eu hwynebu gyda rhwystrau i recriwtio gofalcwyr o ansawdd uchel, sy'n arwain at fylchau yn y ddarpariaeth. Mae hon yn broblem fawr yng Ngwynedd ac yn enwedig yn ardal Llŷn.

Mae cyfanswm o 128 o welyau preswyl yn ardal Llŷn ac Eifionydd ond ar ôl cau Cartref Nyrsio Penrhos ar ddechrau mis Rhagfyr 2020 nid oes darpariaeth o welyau nyrsio na dementia yn ardal Llŷn.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i bobl deithio i ddod o hyd i ddarpariaeth addas a chymwys, gan gynyddu'r pwysau ar dai yn yr ardaloedd y byddent yn symud iddynt. Rydym hefyd yn gwybod fod rhaid i rai unigolion chwilio am leoliadau y tu allan i'r sir sy'n creu anhawster o ran ymweld a chynnal cysylltiad â theuluoedd a gall fod yn anoddach derbyn gwasanaeth yn Gymraeg.

Amcanion Strategol y prosiect yw:

- Cynyddu argaeledd darpariaeth leol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal.
- Datblygu llety gofal a all ddiwallu ystod o anghenion gan gynnwys gofal preswyl a nyrsio.
- Datblygu Penrhos fel cyfleuster cartref gofal.
- Rheoli costau'r cyngor ac amlygiad BIPBC trwy leoliadau cost uchel.

Amcanion cyfathrebu allanol

Beth ydym yn ceisio ei gyflawni trwy gyfathrebu â phobl?

Codi Ymwybyddiaeth

- **Amcan:** Sicrhau bod yr holl drigolion lleol ym mhentref Penrhos / ardal gyfagos yn ymwybodol o'r cynlluniau datblygu ar gyfer y Cartref Gofal.
- **Dull gweithredu:** Defnyddio sawl sianel gyfathrebu, gan gynnwys cysylltiadau cyhoeddus mewn papurau newydd lleol, erthyglau newyddion ar y wefan gorfforaethol, postiadau ar gyfryngau cymdeithasol, a chyfarfodydd cyhoeddus i rannu gwybodaeth am y datblygiad.

Amlygu Manteision Cymunedol

- **Amcan:** Cyfathrebu effeithiau cadarnhaol y datblygiad ar y gymuned leol yn glir, megis gwell cyfleusterau gofal, gwasanaethau gwell, cyfleoedd gwaith posibl ac unrhyw fuddion cymunedol eraill.
- **Dull gweithredu:** Creu deunyddiau addysgiadol fel cylchlythyrau a chynnwys ar-lein sy'n amlinellu manteision penodol y prosiect. Cynnal digwyddiadau cymunedol lle gall preswylwyr ddysgu mwy am y buddion hyn wyneb yn wyneb.

Hwyluso Adborth a Chyfranogiad

- **Amcan:** Darparu lluo o gyfleoedd i drigolion lleol rannu eu hadborth a chyfrannu syniadau a fydd yn helpu i lunio dyfodol y Cartref Gofal.
- **Dull gweithredu:** Trefnu sesiynau galw heibio, arolygon a fforymau ar-lein lle gall preswylwyr fynegi eu barn a'u hawgrymiadau. Sicrhau bod mecanweithiau adborth yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio, a bod pob llais yn cael ei glywed.

Meithrin Ymddiriedaeth a Thryloywder

- **Amcan:** Meithrin ymddiriedaeth yn y gymuned leol trwy gynnal cyfathrebu agored a thryloyw trwy gydol y broses ddatblygu Cartref Gofal.
- **Dull gweithredu:** Diweddaru preswylwyr yn rheolaidd ar gynnydd y prosiect trwy gylchlythyrau targed, diweddariadau gwefan a chyfarfodydd cyhoeddus. Mynd i'r afael ag unrhyw bryderon posibl yn brydlon a darparu ymatebion clir i ymholiadau'r gymuned.

Adeiladu Perthnasoedd Cymunedol Hirdymor

- **Amcan:** Sefydlu perthnasoedd parhaol gyda'r gymuned leol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod datblygu, gan sicrhau ymgysylltu a chefnogaeth barhaus i'r cartref gofal.
- **Dull gweithredu:** Datblygu pwynt cyswllt ar gyfer preswylwyr. Trefnu digwyddiadau cymunedol rheolaidd o bosib ynghyd â chyfleoedd i gynnwys pobl yn y cartref gofal i barhau i ymgysylltu â'r boblogaeth leol.

Cynulleidfaoedd targed

Gyda phwy mae angen i ni ymgysylltu/hysbysu?

Allanol

- Trigolion lleol ym Mhenrhos a'r ardal gyfagos
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Darparwyr gofal sylfaenol yn yr ardal leol gan gynnwys meddygfeydd teulu lleol
- Cyngor Tref Pwllheli
- Cyngor Cymuned Llanbedrog
- Rhanddeiliaid gan gynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill sydd wedi datblygu prosiectau tebyg a ariennir gan IRCF o'r blaen neu sydd yn y broses o gyflawni prosiectau tebyg a ariennir gan IRCF – h.y. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Gorllewin Cymru sydd ar hyn o bryd yn datblygu cartref gofal tebyg yng Nghwmgwili
- Rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr cartrefi gofal annibynnol eraill pan fo'n briodol

Mewnol

- Holl Aelodau'r Cabinet (CG)
- Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant, Y Cyng. Dilwyn Morgan (CG)
- Aelod Lleol dros Lanbedrog gyda Mynytho - Y Cyng. Angela Russell (CG)
- Staff (CG)

Negeseuon allweddol

Isod mae rhai 'negeseuon allweddol' y byddem yn ceisio eu hyrwyddo fel rhan o'n gweithgareddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu:

- Mae Penrhos yn darparu cyfle i ddatblygu rhan o'r safle presennol, gan fynd i'r afael ag anghenion gofal lleol yn fwy effeithiol ac i archwilio modelau gofal newydd.
- Bydd y cyfleuster arfaethedig yn gweld cynnydd o 56 o welyau yn y capasiti presennol er mwyn darparu ar gyfer mwy o angen yn ogystal â phontio'r bwlch cyflenwi presennol yn y ddarpariaeth gwasanaethau gofal preswyl a nyrsio yn ardal Llŷn.
- Ar hyn o bryd, mae tan ddarpariaeth o leoedd mewn cartrefi nyrsio yng Ngwynedd, sy'n waeth mewn rhai rhannau o Wynedd, sef Llŷn ac Eifionydd. Fel comisiynwyr, mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd felly yn awyddus i archwilio sut y gallent wella'r sefyllfa bresennol trwy ddod yn ddarparwyr cartref gofal gyda nyrsio. Bydd y datblygiad hwn yn sicrhau bod gofal a chymorth hanfodol ar gael i'r cymunedau lleol a'r cymunedau cyfagos.
- Byddai gweithredu cartref preswyl a nyrsio yn cael budd sylweddol yn y rhanbarth, gan ganiatáu'r gallu i leoli'r unigolion hynny sy'n anoddach eu lleoli am ystod o resymau. Bydd hefyd yn helpu i gynnig darpariaeth i'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth, lle gwelir llond llaw yn unig o ddarparwyr lleol sy'n gallu diwallu'r anghenion hynny ar hyn o bryd ar gost uchel iawn. Trwy ddatblygu darpariaeth CG mewnol, byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ddod o hyd i leoliadau ar sail fwy cost-effeithiol.
- Bydd y datblygiad hwn yn ymgorffori dyluniad Carbon Sero Net yn unol ag ymrwymiad y Cyngor tuag at ddod yn awdurdod lleol sero carbon net erbyn 2030.
- Mae'r datblygiad yn agor llwybrau ar gyfer buddion cymunedol ehangach, fel cyflogaeth leol ac uwchsgilio.
- Mae'r datblygiad yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol trwy gymorth gan Lywodraeth Cymru ac ni all fwrw ymlaen oni bai bod y pecyn cyllido yn ei le.

Tôn llais

Sut byddwn yn mynd i'r afael â'n hanghenion cyfathrebu ac ymgysylltu i gyflawni ein hamcanion?

Er mwyn cyflawni ein hamcanion cyfathrebu ac ymgysylltu, rydym am fabwysiadu dull strategol, cynhwysol sy'n pwysleisio positifrwydd a thryloywder.

Strategaethau Allweddol:

1. **Negeseuon wedi'u teilwra:** Creu negeseuon clir, cadarnhaol sy'n tynnu sylw at fanteision y prosiect a chynnal tôn gyson ar draws pob sianel gyfathrebu.
2. **Hyrwyddo aml-sianel:** Defnyddio cymysgedd o gyfryngau traddodiadol, llwyfannau digidol, ac ymgysylltu wyneb yn wyneb i gyrraedd y gymuned gyfan.
3. **Adborth Rhyngweithiol:** Gweithredu arolygon, ymgynghoriadau cyhoeddus a blychau awgrymiadau i gasglu mewnbwn cymunedol a sicrhau bod trigolion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed.
4. **Diweddariadau Rheolaidd:** Darparu diweddariadau rheolaidd, tryloyw ar gynnydd y prosiect, gan fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn onest.
5. **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Diweddarau aelodau'r cabinet a chynghorwyr cymuned/tref lleol a'u cynnwys mewn sesiynau briffio a chyfarfodydd rheolaidd.

Ar y cyfan, ein nod yw cynnal tôn gyson, gadarnhaol ac addysgiadol i feithrin cefnogaeth ac ymddiriedaeth yn y gymuned.

Trosolwg o Amserlenni Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Er mwyn darparu trosolwg cyffredinol o'r amserlenni cyfredol, ac yn amodol ar geisiadau ariannu llwyddiannus, bydd y prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol yn allanol gan Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwysu Llywodraeth Cymru (IRCF).

Mae **cyflwyno cais cynllunio** wedi'i drefnu ar gyfer mis **Mawrth 2026** (yn dibynnu ar ganlyniadau adroddiad PAC, a chymeradwyaeth cleient i'w ryddhau), a disgwylir **Cymeradwyo Caniatâd Cynllunio** erbyn mis **Mehefin 2026** (i'w gadarnhau – tra'n disgwyl i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno). Disgwylir i'r **gwaith adeiladu** ddechrau yng **ngwanwyn 2027**, gan anelu at **gwblhau a throsglwyddo'r** cyfleuster erbyn **hydref 2029**. Rhagwelir y bydd yr adeilad **yn gwbl weithredol erbyn hydref 2029**.

Mae ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu wedi bod yn mynd rhagddynt ers **2023**. Bydd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau galw heibio cyhoeddus i drigolion ym mhentref Penrhos a'r ardal gyfagos i'w galluogi i ddarganfod mwy o fanylion am gynigion ac i roi cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau pellach.

Yn dilyn hyn, bydd diweddariadau cyfathrebu i'r cyhoedd yn cael eu cynllunio ar gyfer pob 'carreg filltir allweddol' o gynnydd y prosiect o'r cam Cais Cyn-Gynllunio i gymeradwyo cyllid, cyfleoedd tendr, y cam dylunio terfynol gyda delweddau posibl o'r adeiladu, yn ogystal â diwrnod cyntaf y gwaith adeiladu lle rydym yn 'torri'r dywarchen', hyd at gwblhau a throsglwyddo'r cyfleuster yn derfynol yn **2029**. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu i rannu'r holl ddiweddariadau pwysig maes o law.

Cynllunydd Cynnwys a Dyddiadau Allweddol

Dyddiadau allweddol	Math y cyfathrebu / ymgysylltu sydd ei angen	Cynllun cynnwys
Medi i Rhagfyr 2025	**MEWNOL YN UNIG** Pwyllgorau BIPBC a CG i gymeradwyo'r ABA cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth	MO i roi rhagor o fanylion i'r Tîm Cyfathrebu pan fydd dyddiadau wedi'u cadarnhau
Tachwedd 2025	**MEWNOL YN UNIG** Cyflwyno diweddariad Cais Cyllid IRCF gydag ABA i Lywodraeth Cymru – Disgwylir canlyniad ynghylch cymeradwyo cyllid ym mis Ionawr 2026	N/A
Hydref 2025	CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS ALLANOL (CG a BIPBC) - Cyn cyflwyno Cais Cynllunio ym mis Mawrth 2026, ystyried cynnal 'lansiad meddal' o ran datblygiad y Cartref Gofal i ddiweddaru cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno i'w hadolygu/cymeradwyo	Datganiad i'r Wasg ynghylch bwriad Cyn Cyflwyno Cais ar gyfer y wasg leol, post cymdeithasol CG a gwefan CG / sianeli cyfathrebu mewnol. MO i roi rhagor o fanylion i'r Tîm Cyfathrebu pan gant eu cadarnhau.

Tactegau ac Adnoddau

Pa sianeli cyfathrebu fyddwn ni yn eu defnyddio i gyrraedd ac ymgysylltu â'n grwpiau targed?

Sianeli cyfathrebu mewnol:

- **Nodiadau Briffio / Adroddiadau Cryno / Cynlluniau Busnes** - Dosbarthu copiâu i Aelodau Cabinet a chynghorwyr tref / cymuned lleol i'w hadolygu/casglu adborth ar y camau priodol
- **Cyfarfodydd y Cabinet a'r BI** - Cyflwyno Papur i gyfarfod Cabinet CG a Bwrdd Iechyd BIPBC
- **Cyfarfodydd Tîm (h.y.: Tîm Arweinyddiaeth / Cynghorwyr / Cyffredinol)** - Cyflwyniadau gyda diweddariadau / trafodaethau o amgylch y bwrdd
- **Defnyddio pecyn cymorth cyfathrebu mewnol i rannu diweddariadau** - h.y.: Bwletinau wythnosol, e-gylchlythyr staff misol a'r Fewnrwyd

Sianeli cyfathrebu allanol:

- **Y wasg leol** – Tîm cyfathrebu i gyhoeddi Datganiad i'r Wasg er mwyn hyrwyddo
- **Gwefan gorfforaethol** - Erthyglau newyddion gyda diweddariadau yn ôl yr angen
- **Tudalen we bwrpasol Penrhos wedi'i chreu gan Dîm Cyfathrebu ClwydAlyn** – I gynnwys yr holl ddiweddariadau/cyfeiriadau i gael rhagor o wybodaeth

- **Postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at 'gerrig milltir allweddol'** - Gwybodaeth i gyfeirio at wefan CG am ragor o fanylion os oes angen
- **Digwyddiadau cymunedol cyhoeddus / sesiynau galw heibio** - Cynnal sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb amrywiol ym Mhenrhos / neuaddau cymunedol yn yr ardal gyfagos i rannu cynigion gyda'r cyhoedd er mwyn ymwybyddiaeth.
- **Rhanddeiliaid allanol (fel RPB's eraill) - Teams (cyfarfodydd) / E-bost** - Trefnu cyfarfodydd *Teams* chwarterol/deufisol gyda rhanddeiliaid allanol (megis Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru) i drafod eu profiad / cynnydd cyfredol y prosiect wrth gyflawni cynlluniau tebyg a ariennir gan IRCF fel cartref gofal Plas y Bryn. Byddai hyn yn gyfle amserol i drafod unrhyw heriau wnaethant eu hwynebu, sut wnaethant eu goresgyn, i gymharu costau prosiect ac adolygu llwybrau ar gyfer gostyngiadau posibl, yn ogystal â meithrin perthnasoedd a rhannu gwybodaeth gyffredinol yn y dyfodol. Gellid darparu diweddariadau e-bost hefyd rhwng cyfarfodydd.
- **Rhanddeiliaid allanol (h.y. busnesau annibynnol fel darparwyr cartrefi gofal eraill/meddygon teulu) - Cyfarfodydd wyneb yn wyneb / Teams (cyfarfodydd) / E-bost** - Trefnu cyfarfodydd un-i-un gyda Meddygon Teulu / Rheolwyr Meddygfeydd unigol perthnasol i drafod cynigion Penrhos i weld sut y gallwn weithio gyda'n gilydd yn y dyfodol. Ystyried mynychu unrhyw un o'u cyfarfodydd tîm misol/chwarterol mewnol eu hunain i gyflwyno cynigion i adeiladu ymgysylltiad ymhellach. Gallwn hefyd ystyried trefnu cyfarfod Teams ar gyfer diweddariadau ar y prosiect, yn ogystal â chadw mewn cysylltiad trwy gyfathrebu dros e-bost i rannu cynnydd pellach y prosiect.

A oes unrhyw elfennau cyllidebol i'w hystyried?

Ar hyn o bryd, **nid oes unrhyw gyllideb marchnata ychwanegol** wedi'i dyrannu y tu allan i'r Tîm Cyfathrebu corfforaethol ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Pwy fydd yn arwain ac yn cefnogi gweithgareddau?

Y Rheolwr Prosiect, Meinir Owen i weithio'n agos gyda chydweithwyr Tîm Cyfathrebu CG isod a darparu gwybodaeth iddynt ar gyfer y gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu isod ar gyfer hyrwyddo:

- **Y Wasg a'r Cyfryngau:**
Arweinydd y Tîm Cyfathrebu, Sarah Jones
sarahmarionjones@gwynedd.llyw.cymru
- **Cynnwys y we:**
Swyddog Cynnwys Digidol, Sioned Jones
SionedVaughan-Jones@Gwynedd.llyw.cymru
- **Cyfathrebu Mewnol:**
Swyddog Cyfathrebu Mewnol, Ffion W Jones
ffionwynjones@gwynedd.llyw.cymru

Risgiau a Mesurau Lliniaru

RISG 1: Cyllid

Yn amodol ar geisiadau cyllid llwyddiannus, bydd y prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol yn allanol gan Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Llywodraeth Cymru (IRCF). Mae cyflwyno'r cais cynllunio wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2026 gyda disgwyl Cymeradwyaeth Cynllunio erbyn mis Mehefin 2026.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) o'r cynllun yn 2023, mae cynnig Penrhos wedi symud ymlaen ers hynny. Cyflwynwyd y cais Achos Busnes Strategol am ffioedd datblygu Achos Busnes Amlinellol (£599,000), i LIC ym mis Ebrill 2023, a'i gyflwyno i banel craffu IRCF ar 19 Mehefin 2024. Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad i argymhell cymeradwyo'r cynllun i Weinidogion ar 17 Gorffennaf 2025.

Lliniaru - Mae angen i ni nodi'n glir ym mhob cyfathrebiad bod y prosiect yn amodol ar sicrhau cefnogaeth i'r cyllid drwy Lywodraeth Cymru.

RISG 2: Yr Achos dros Newid: Datblygu cyfleuster newydd ar safle Pentref Penrhos

Lliniaru - Byddai adeiladu Cartref Gofal Penrhos yn galluogi'r Cyngor i gynyddu capasiti o 56 o welyau. Byddai adeiladu cartref gofal mwy nid yn unig yn cynyddu capasiti ond yn gwella'r ansawdd trwy sicrhau ei fod yn diwallu'r safonau a osodir gan y rheoleiddiwr, er enghraifft trwy sicrhau bod gan bob ystafell *ensuite*.

Drwy gynyddu'r ddarpariaeth fewnol, bydd y prosiect yn ail-gydbwyso'r farchnad gofal drwy ddarparu mwy o welyau gydag ychwanegu capasiti nyrsio, mewn ardal yng Ngwynedd sydd heb ddarpariaeth nyrsio bresennol.

Mae manteision y prosiect yn bellgyrhaeddol ac fe'u nodir isod:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Blaenoriaethau Strategol ac Aliniad Polisi
- Gwella Gofal a Chapasiti
- Effaith Ariannol a Strategol
- Gwella Canlyniadau Preswylwyr
- Lles Cymunedol ac Emosiynol
- Gwelliannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Arloesi a Dysgu
- Budd Cynaliadwyedd
- Buddion Cyflogaeth Economaidd Lleol
- Mesurau lliniaru marchnad wedi'i ail-gydbwyso sefydledig yn erbyn costau lleoli enchwythedig.

Darparu 'Cartrefi am oes' yn lleihau'r angen i symud rhwng categorïau gofal.

Cymeradwyaethau cyfathrebu a chwblhau

Cam 1: Cymeradwyo/cwblhau mewnol

Cyngor Gwynedd:

- **Cymeradwyaeth Derfynol**
Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant, Y Cyng. Dilwyn Morgan
Cynghorydd.DilwynMorgan@gwynedd.llyw.cymru
- **Cyn cymeradwyaeth derfynol**
Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Mari Wynne Jones
mariwynnejones@gwynedd.llyw.cymru
- **Darparwr cynnwys**
Rheolwr Prosiect, Meinir Owen
Meinirowen@gwynedd.llyw.cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

- **Cymeradwyaeth Derfynol**
TBC
- **Cyn cymeradwyaeth derfynol**
Arweinydd Ardal y Gorllewin ar gyfer Gwelliant, Christine Rudgley (BIPBC)
Christine.Rudgley@wales.nhs.uk
- **Darparwr cynnwys**
TBC

Cam 2: Cymeradwyo/cwblhau allanol

Llywodraeth Cymru

Yn unol â gofynion canllawiau brand cyllido LIC uchod, **RHAID** i holl gysylltiadau cyhoeddus, marchnata a hysbysebu sy'n ymwneud â Phenrhos gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan LIC cyn iddynt gael eu cyhoeddi yn y parth cyhoeddus. Ar ôl cymeradwyaeth fewnol derfynol CG a BIPBC, bydd manylion wedyn yn cael eu darparu i'r cydweithwyr LIC isod gan y Rheolwr Prosiect ar gyfer eu hadolygu/adborth a'u cwblhau'n derfynol cyn unrhyw hyrwyddo ehangach arfaethedig.

- **Sarah Jane Davies**
Pennaeth Datblygu Adeiladau Gofal Sylfaenol | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Llywodraeth Cymru
SarahJane.Davies@gov.wales

- **Emma Jenkins**

Arweinydd Datblygu Adeiladau Gofal Sylfaenol | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol| Llywodraeth Cymru

Emma.Jenkins@gov.wales

- **Helen Griffiths**

Arweinydd Datblygu Adeiladau Gofal Sylfaenol | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol| Llywodraeth Cymru

Helen.Griffiths@gov.wales

Cam 3: Y Tîm Cyfathrebu

- Yn dilyn cymeradwyaethau terfynol mewnol ac allanol CG a BIPBC, darperir yr holl fanylion perthnasol i Dîm Cyfathrebu'r Cyngor ar gyfer hyrwyddo cyhoeddus ehangach.

Protocol Cyfweiliad i'r Wasg

Ceisiadau am gyfweiliadau i'r Wasg / Y Cyfryngau:

- Rhaid cyfeirio pob ymholiad gan y wasg/cyfryngau trwy Dîm Cyfathrebu'r Cyngor i gynorthwyo/cydllynu cyfweiliadau
- Bydd holl ymholiadau'r wasg/cyfryngau a dderbynnir yn uniongyrchol gan y Tîm Cyfathrebu yn cael eu rhannu â'r Tîm Rheoli Prosiect ehangach ar y cyfle cyntaf posib i baratoi ymatebion perthnasol
- Rhaid i gydweithwyr Llywodraeth Cymru gael eu hysbysu am bob ymholiad gan y wasg/cyfryngau pan fyddant yn cael eu derbyn.

Bydd Nodiadau Briffio Llawn a'r diweddariadau perthnasol yn cael eu darparu i'r cyfweledigion isod, Tîm Cyfathrebu'r Cyngor a chydweithwyr Llywodraeth Cymru cyn yr holl gyfweiliadau.

Cyfweiliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg:

Byddai trefniadau yn cael eu rhoi yn eu lle i hwyluso cyfweiliad os gofynnir am hynny

- **Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant, Y Cyng. Dilwyn Morgan**

Cynghorydd.DilwynMorgan@gwynedd.llyw.cymru

Gofynion cyfathrebu a brandio

GWYBODAETH BWYSIG

Gofyniad gorfodol fel rhan o Delerau ac Amodau Cyllid Refeniw IRCF

Er mwyn galluogi rhanddeiliaid a dinasyddion i ddeall sut mae'r IRCF yn gwneud gwahaniaeth, gofynnir i RPBs rannu eu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer yr IRCF yng nghyd-destun cynllunio rhanbarthol ehangach.

Rhaid i RPBs gydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a'r deunyddiau marchnata a gynhyrchir mewn perthynas â'r cyllid a'r prosiectau cysylltiedig. Rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath gydymffurfio â chanllawiau brandio cymeradwy Llywodraeth Cymru i sicrhau gydymffurfiaeth â Thelerau ac Amodau'r grant o safbwynt archwilio.

Fel isafswm, rhaid i ni gynnwys y testun canlynol, ynghyd â logo Llywodraeth Cymru i gyd-fynd â'r testun.

Cymraeg

“Ariennir <nodi manylion y prosiect e.e. swydd, astudiaeth dichonoldeb> mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru drwy Raglen Cyllid Cyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwysio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fel rhan o Raglen Gyfalaf ehangach Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru”.

Saesneg

“This < insert project detail e.g. job/post, feasibility study > is funded in partnership with Welsh Government via the Health and Social Care Integration and Rebalancing Capital Fund Programme and as part of the wider West Wales Regional Partnership Board Capital Programme”.

Arwyddion a Phlaciau

Rhaid arddangos logo neu logo cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru ar arwyddion neu blaciau pan fo prosiectau wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Nid oes dyluniad unffurf na ffurf geiriau ar gyfer placiau gan fod gofynion yn amrywio o brosiect i brosiect. Fodd bynnag, rhaid i bob plac fod yn ddwyieithog gan roi amlygrwydd cyfartal i bob iaith. Os yw'r plac yn gydnabyddiaeth o gyllid, rhaid iddo bob amser gynnwys y logo. Wrth benderfynu ar eiriad placiau, cofiwch y canlynol:

- Mae angen i blac ddweud y stori, meddylwch am y neges yr ydych am ei chyfleu (ydych chi'n cydnabod cyllid? Ydych chi'n coffáu seremoni agoriadol? Y ddau? Enw'r prosiect? Pwy sy'n gysylltiedig? Beth yw'r dyddiad?)

- Mae angen cyfathrebu'r neges yn glir, yn gryno a chynnwys y ffeithiau yn unig.

Pan fydd plac neu arwydd yn hyrwyddo rhaglen neu brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru, **dylid gosod y testun Cymraeg fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.**

Site signage layout example



Plaque layout example



Os gofynnir i Weinidog ddadorchuddio plac, gwnewch yn siŵr bod Swyddfa'r Gweinidog perthnasol yn ymwybodol ac yn cael cyfle i wneud sylwadau.

Dylid ysgrifennu dyddiadau ar blaciau 01 January 2016 yn Saesneg a 01 Ionawr 2016 yn Gymraeg. Peidiwch â defnyddio 'st', 'nd', 'rd', 'th' yn y Saesneg. Peidiwch â defnyddio 'af', 'ail', 'ydd', 'ed', 'eg', 'fed', 'ain' yn y Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm brandio Llywodraeth Cymru ar 03000 256860 neu e-bostiwch: brandingqueries@gov.wales

Dogfennau canllaw brand defnyddiol/dolenni gwe gan Lywodraeth Cymru:

- [Canllawiau IRCF y Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwysio Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-2025 - Tud. 24](#)
- [Prosiectau Cyfalaf ac Isadeiledd \(Logos swyddogol\)](#)

Logos

Logos i'w cynnwys ar yr holl weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn y drefn isod:



Safonau'r Iaith Gymraeg

Rhaid i'r holl gyfathrebu, ymgysylltu a datganiadau i'r wasg fod ar gael yn ddwyieithog.

Hygyrchedd: Cynnwys digidol

Rhaid i'r holl gynnwys ar wefan ac apiau symudol CG fod yn ddefnyddiol gan bawb waeth beth fo'u gallu a'r dechnoleg/dyfais y maent yn eu defnyddio i gael mynediad i'r rhyngwyd. Mae gan CG ddyletswydd ddeddfwriaethol i'w bodloni [Safonau WCAG 2.1 AA](#). O Fedi 23 2020, ehangwyd y ddeddfwriaeth hon i gynnwys .pdfs. RHAIID i unrhyw .pdf sy'n cael ei uwchlwytho ar ôl y dyddiad hwn fodloni'r un safonau â chynnwys y we.

Monitro a Gwerthuso

Sut fyddwch chi'n monitro a mesur llwyddiant ymgyrch a gweld a yw'n gweithio?

- **Cyfathrebu digidol:** Ar gyfer yr holl gyfathrebu ac ymgysylltu digidol, byddwn yn cadw cofnod o ble roedd gwybodaeth yn ymddangos ac yn monitro'r ystadegau yn agos i werthuso cyrhaeddiad ac ymgysylltiad. Bydd hyn yn cynnwys postiadau cyfryngau cymdeithasol / erthyglau gwefan, adnoddau allanol yn ogystal â sianeli mewnol.
- **Cyfryngau cymdeithasol:** Byddwn yn sicrhau bod unrhyw adborth a roddir ar gyfryngau cymdeithasol yn dilyn cyfathrebu cyhoeddus yn cael ei adolygu ac yn sicrhau ein bod yn darparu ymatebion, os oes angen, i unrhyw ymholiadau mewn modd proffesiynol ac amserol.
- **Cyhoeddusrwydd gan y cyfryngau:** Byddwn yn sicrhau cadw cofnod o'r holl gysylltiadau cyhoeddus a rennir, cofnodi pob dolen we i ddangos ble mae'r wybodaeth yn ymddangos a chadarnhau nifer yr ymweliadau cyhoeddus a dderbyniodd y cysylltiadau cyhoeddus i gofnodi cyrhaeddiad ac ymgysylltiad.
- **Digwyddiadau cymunedol/Sesiynau galw heibio:** Ar gyfer yr holl ddigwyddiadau cymunedol wyneb yn wyneb / sesiynau galw heibio a gynhelir, byddwn yn gwerthuso llwyddiant trwy nifer y mynychwyr a'r adborth a ddarperir yn ystod y digwyddiadau hyn.
- **Cyfarfodydd y Cyngor:** Byddwn yn cofnodi unrhyw adborth a dderbynnir mewn cyfarfodydd llawn/unrhyw gyfarfodydd eraill, yn ystod ac ar ôl y cyfarfod ar gyfer cyfeirio ac i gofnodi unrhyw gamau pellach.

Cysylltu

Am ragor o fanylion, neu unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â Chyfathrebu ac Ymgysylltu, cysylltwch â:

Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Mari Wynne Jones

mariwynnejones@gwynedd.llyw.cymru

Rheolwr Prosiect, Meinir Owen

Meinirowen@gwynedd.llyw.cymru

Diweddariad Gweithgareddau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Dyddiad	Math o Gyfathrebu ac Ymgysylltu	Camau angenrheidiol	Diweddariad statws
Ionawr 2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
20/01/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Bwrdd Rhaglen Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Cyfarfod y Bwrdd Rhaglen i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
28/02/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
02/03/2023	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) – Cyflwyniad i Gyngor Tref Pwllheli (CG/CA)	Cyflwyniad i'r cynlluniau ym Mhenrhos – gan gynnwys y tai a'r cartref gofal	Cwblhawyd
06/03/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
28/03/2023	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) – Cymeradwyaeth ABS Cabinet Cyngor Gwynedd (CG - Noddwr y Cynllun)	I'w gyflawni gan Noddwr y Cynllun.	Cwblhawyd Rhaglen y Cabinet ar Ddydd Mawrth, 28 Mawrth, 2023, 1.00pm
30/03/2023	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) - Cymeradwyaeth ABS BIPBC (BIPBC - Noddwr y Cynllun)	I'w gyflawni gan Noddwr y Cynllun.	Cwblhawyd Cofnodion Cyhoeddus Terfynol y Bwrdd Iechyd 30.03.23.pdf
17/04/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
18/04/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen

Dyddiad	Math o Gyfathrebu ac Ymgysylltu	Camau angenrheidiol	Diweddariad statws
21/04/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Bwrdd Rhaglen Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Cyfarfod y Bwrdd Rhaglen i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
02/05/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Dylunio Penrhos (CG/BIPBC)	Grŵp Dylunio i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
10/05/2023 RIBA 2	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) - Cais cychwynnol drafft yr IRCF - cyflwyno i LIC (CG - Noddwr y Cynllun)	I'w gyflawni gan Noddwr y Cynllun.	Cwblhawyd
15/05/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
Mai 2023 RIBA 2	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) - Cymeradwyaeth ABS Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (CG - Noddwr y Cynllun)	I'w gyflawni gan Noddwr y Cynllun.	Cwblhawyd
19/05/2023 RIBA 2 Cais IRCF 1af wedi'i Gyflwyno i LIC	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) - Cais Cychwynnol Terfynol IRCF wedi'i gyflwyno i LIC (costau yn unol â Cham 2) (CG - Noddwr y Cynllun)	I'w gyflawni gan Noddwr y Cynllun.	Cwblhawyd
26/05/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Bwrdd Rhaglen Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Cyfarfod y Bwrdd Rhaglen i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
05/06/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Dylunio Penrhos (CG/BIPBC)	Grŵp Dylunio i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
12/06/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen

Dyddiad	Math o Gyfathrebu ac Ymgysylltu	Camau angenrheidiol	Diweddariad statws
12/06/2023	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) – Cyflwyniad i Fforwm Ardal Dwyfor (CG/CA)	Cyflwyniad i'r cynlluniau ym Mhenrhos – gan gynnwys y tai a'r cartref gofal	Cwblhawyd
13/06/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
11/07/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
Gorffennaf 2023 RIBA 2	Dyddiad Allweddol (Llinell Amser Prosiect Penrhos) - Penodi Pensaer (CG)	I'w gyflawni gan dîm y prosiect.	Cwblhawyd
05/08/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Dylunio Penrhos (CG/BIPBC)	Grŵp Dylunio i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
24/08/2023 Panel Adolygu IRCF 1af	Dyddiad Allweddol - Ymholiadau Panel Craffu SSP IRCF Llywodraeth Cymru - (CG/BIPBC/LIC)	Ymateb Tîm Rheoli Prosiect Penrhos/cynrychiolydd BIPBC i Banel Craffu SSP IRCF LIC IRCF am gyllid i symud ymlaen i gam datblygu ABA.	Wedi'i gwblhau – anfonwyd yr ymateb 11/09/2023
04/09/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
05/09/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
11/09/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Bwrdd Rhaglen Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Cyfarfod y Bwrdd Rhaglen i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
12/09/2023 2il Banel Adolygu IRCF	Dyddiad Allweddol - Ymholiadau Polisi LIC Panel Craffu IRCF Llywodraeth Cymru - (CG/BIPBC/LIC)	Ymateb Tîm Rheoli Prosiect Penrhos/cynrychiolydd BIPBC i Banel Craffu Polisi IRCF LIC am gyllid i symud ymlaen i gam datblygu ABA.	Wedi'i gwblhau – anfonwyd yr ymateb 26/09/2023

Dyddiad	Math o Gyfathrebu ac Ymgysylltu	Camau angenrheidiol	Diweddariad statws
03/10/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
04/10/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allanol - Ymweliad safle IRCF LIC (LIC a CG)	Ymweliad safle IRCF LIC â Phenrhos	Cwblhawyd
09/10/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
12/10/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC)	Cyfarfod cyntaf i gytuno ar bwrpas y grŵp i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
15/10/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Dylunio Penrhos (CG/BIPBC)	Grŵp Dylunio i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
25/10/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allanol - Ymweliad safle Tîm Tai LLC (LIC a CG)	Ymweliad safle Tîm Tai LLC â Phenrhos	Cwblhawyd
07/11/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Bwrdd Rhaglen Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Cyfarfod y Bwrdd Rhaglen i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
14/11/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
20/11/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
29/11/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC)	Grŵp Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen

Dyddiad	Math o Gyfathrebu ac Ymgysylltu	Camau angenrheidiol	Diweddariad statws
19/12/2023	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
10/01/2024	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Bwrdd Rhaglen Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Cyfarfod y Bwrdd Rhaglen i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
15/01/2024	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Cyfathrebu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Cyfathrebu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
23/01/2024	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Mewnol – Cyfarfod Grŵp Gofal a Gweithlu Penrhos (CG/BIPBC/CA)	Grŵp Gofal a'r Gweithlu i drafod y diweddariadau/camau gweithredu i symud ymlaen ar gyfer Penrhos.	Cwblhawyd - Camau gweithredu wedi'u nodi/symud ymlaen
